

**Cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberffraw a gynhaliwyd yn Neuadd
Glannau Ffraw am 7 y.h ar nos Fercher y 17fed o Orffennaf 2019**

Preseanol: *J H Owens (Cad), M T Smithurst, E Evans, R F Owen, A Hughes, C Davies, A Jones,
Cyng P Rogers*

Ymddiheuriadau: *R B Owen, C G Topps, K Woods, W Hughes S Austin, Cyng Bryan Owen,*

1. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19/06/2019 eu derbyn yn gywir. Cynigwyd gan MTS ac eilwyd gan AJ .

2. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19/06/2019

3.1 Croesffordd Dothan – arwyddbost newydd– Cyng P Rogers i wneud ymholiadau.

3.2 Gordyfiant ar y ffin rhwng y llwybr troed ym Maes Llewelyn a'r Cae Chwarae – Amcanbris o £90.00 wedi ei dderbyn gan Mr Liam Jones am chwistrellu'r safle gyda chwynladdwr. Cynigwyd gan RFO ac eilwyd gan MTS y dylid gofyn i Mr Jones gwblhau'r gwaith. JHO i gysylltu â Mr Jones.

3.3 Swydd y Clerc – Clerc yn adrodd ei bod wedi gwneud ymholiadau gyda Mai Owen (Clerc Llanfaelog). Ms Owen wedi datgan y byddai'n fodlon helpu dros dro. MTS yn cynnig y gall y Cyngor Cymuned leihau nifer y cyfarfodydd a gynhelir mewn blwyddyn hyd nes y bydd swydd y Clerc wedi ei llenwi. Clerc i wneud ymholiadau gyda Un Llais Cymru mewn perthynas â'r lleiafswm o gyfarfodydd a ellir eu cynnal.

3.4. Bro Branwen – Pryderon ynglyn â'r diffyg canllaw ar lwybr eiddo ym Mro Branwen. Cyng P Rogers yn adrodd fod y gwaith i'w wneud gan Adran Briffyrdd y Cyngor Sir.

3.5. Porth Trecastell – Linellau melyn – Cyng P Rogers yn cadarnhau fod y gwaith am fynd yn ei flaen ond yn datgan y bydd yn broses hir.

3.6 Wal derfyn - Pryderon wedi eu datgan gan AJ mewn perthynas â chyflwr y wal rhwng y llwybr a'r tai yng nghefn y neuadd. Perchnogaeth y tir yn aneglur. Cyng B Owen ddim yn bresennol i adrodd yn ôl.

3. Ceisiadau Cynllunio

Dim

4. Tir o flaen Gwely a Brechwast y Prince Llewelyn

Llythyr wedi ei dderbyn gan Mr & Mrs Harwood, perchnogion y Prince Llewelyn yn gofyn i'r Cyngor Cymuned ail-ystyried eu penderfyniad mewn perthynas â'r gorchymyn terfynu priffordd ar gyfer y tir sydd o flaen yr eiddo. Mr a Mrs Harwood yn dymuno cyflwyno'r canlynol fel newidiadau perthnasol sydd wedi digwydd ers cyflwyno'r cais blaenorol yn 2005:

1. Mae'r eiddo bellach yn fusnes yn hytrach na chartref preifat
2. Eiddo drws nesaf sef Plas Llewelyn wedi newid defnydd modurdy sydd yn gadael llai o le parcio ar gyfer eu cerbydau
3. Llys Llewelyn bellach wedi creu llecynnau parcio penodol ar gyfer y bythynnod gwyliu sydd yn gadael llai o lefydd gwag
4. Gwaharddiadau parcio newydd o amgylch y pentref yn lleihau nifer y llecynnau addas ar gyfer gadael cerbyndau.

Mewn perthynas â'r sylwadau a wnaed ynglyn â mynediad i'r pentref petai damwain yn arwain at orfod cau y gyffordd, Mr a Mrs Harwood yn datgan fod mynediad arall drwy Glan y Môr.

Cynigwyd gan MTS, eilwyd gan EE a chytunodd bawb nad yw safbwynt y Cyngor Cymuned mewn perthynas â'r mater wedi newid. Ni fyddai cymeradwy'r gorchymyn terfynu priffordd a chaniatau gwerthu'r tir o fantais i fwyafrif helaeth y gymuned leol. Nodwyd hefyd fod y fynediad yng Nglan y Môr yn ddibynnol ar y llanw ac o ganlyniad ni ellir bod yn ddibynnol arno. Clerc i hysbysu Mr and Mrs Harwood.

5. Adolygu'r gyllideb – Chwarter 1

I'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

6. Hyfforddiant

Clerc i anfon manylion o'r cyrsiau ar y we i'r aelodau. Manylion ynglyn â chysiau lleol i'w dosbarthu fel y maent ar gael.

7. Gohebiaeth

7.1 Cyngor Sir Ynys Môn – Fforwm Gyswllt Cyngorau Tref a Chymuned i'w chynnal 18/7/2019. Clerc a'r Cadeirydd i fynychu.

7.2 Ymholiad ynglyn â thorri llwybrau cyhoeddus – Clerc wedi gofyn i Mr Arwel Evans, Cyngor Sir Ynys Môn am fap sy'n dangos yr holl lwybrau cyhoeddus yn yr ardal..

7.3 Comisiwn Ddemocratiaeth a Ffiniau Lleol Cymru– Adolygiad o drefniadau etholiadol ar gyfer Ynys Môn. Y mater i'w drafod yn Matter to be discussed at Town and Community Liaison Forum. JHO a'r Clerc i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

8. Unrhyw fater arall

8.1. Ffordd tuag at Llyn Coron - EE yn adrodd fod rhan o'r ffordd wedi erydu ac fod conau traffig wedi eu gosod yn y lle cyn perthnasol. Deallir nad oes gan y Cyngor Sir unrhyw gynlluniau ar gyfer trin y lon nac i ddatrys y broblem o erydiad gan yr afon.

8.2. Sioe Aberffraw – Cais am gyfraniad tuag at sioe eleni. Cynigwyd gan MTS ac eilwyd gan CD fod y Cyngor Cymuned yn cyfrannu £200.00. Clerc yn cadarnhau fod cyllid ar gyfer y cyfraniad wedi ei glustnodi yn y gyllideb .

8.3. Cynllun Grant gwella'r Amgylchedd – CD yn adrodd fod hyd at £2,000.00 ar gael gael ar gyfer tenantiaid y cyngor / cartrefi cymdeithasol tuag at wella edrychiad ardaloedd. CD i drafod gydag aelodau o'r gymuned. Ni fyddai'r Cyngor Cymuned yn gymwys i wneud cais am arian.

9. Cyllid**Taliadau:**

30/06/2019	M Evans	Cyflog Ebrill – Meh 2019	£ 709.00
17/07/2019	J H Owens	Planhigion	£ 5.98

Derbyniadau:

24/06/2019	Preswylfa Ltd	Y fynwent	£ 45.00
24/06/2019	Preswylfa Ltd	Y fynwent	£ 120.00
24/06/2019	Preswylfa Ltd	Y fynwent	£ 45.00
24/06/2019	Melvin Rowlands	Y fynwent	£ 60.00
02/07/2019	Amrywiol	Rhenti	£4090.00